**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2021

Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Julie James AS**
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

**8 Mawrth 2021**

## RHAN 1

### 1. Disgrifiad

1.1 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (y “GDCG”), fel y'i diwygiwyd, yn caniatáu ar gyfer gwneud mân ddatblygiadau, o fewn paramedrau penodol, heb fod angen cyflwyno cais cynllunio. Gelwir hyn yn “ddatblygu a ganiateir”.

1.2 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2021 (“y Gorchymyn Diwygio”) yn diwygio Atodlen 2 i'r GDCG fel a ganlyn:

- Mae erthygl 3 yn diwygio paragraff A.2(c) o Ran 3A o Atodlen 2 (Adeiladau Dros Dro a Newid Defnydd at Ddibenion Argyfwng Iechyd y Cyhoedd) i'r GDCG. Mae hyn yn estyn y cyfnod gofynnol ar gyfer rhoi'r gorau i unrhyw ddefnydd o adeilad neu dir at ddiben Dosbarth A, symud unrhyw adeilad, strwythur symudol, offer a pheiriannau gwaith a ganiateir yn unol â Dosbarth A ymaith ac adfer yr adeilad neu'r tir i'r cyflwr yr oedd ynddo cyn y datblygiad, neu i unrhyw gyflwr arall y cytunir arno yn ysgrifenedig rhwng yr Awdurdod Lleol a'r datblygwr, o 12 i 18 mis os dechreuodd y datblygiad cyn 10 Ebrill 2021.

- Mae erthygl 4 yn diwygio paragraff A.1(b) o Ran 12A o Atodlen 2 (Datblygiad Brys gan Awdurdodau Lleol), gan estyn y cyfnod gofynnol ar gyfer rhoi'r gorau i unrhyw ddefnydd o dir at ddiben Dosbarth A, symud unrhyw adeiladau, offer, peiriannau a strwythurau a ganiateir yn unol â Dosbarth A ymaith ac adfer y tir i'r cyflwr yr oedd ynddo cyn y datblygiad, o 12 i 18 mis os dechreuodd y datblygiad cyn 30 Mawrth 2021.

### 2. Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

2.1 Dim.

### 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1 Mae'r pwerau i wneud y Gorchymyn Diwygio yn adrannau 59, 60, 61 a 333 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r adrannau hyn yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol roi (neu alluogi awdurdodau cynllunio lleol i roi) caniatâd cynllunio ar gyfer categorïau o ddatblygiad a bennir mewn gorchymyn datblygu. Gwneir y GDCG o dan y pwerau hyn. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi. Felly, gall Gweinidogion Cymru arfer y pwerau hyn bellach.

3.2 Mae adran 333(5B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu mai gweithdrefn penderfyniad negyddol yw'r weithdrefn ar gyfer offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn datblygu.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Ar ddechrau'r pandemig, nodwyd bod angen cyfleusterau dros dro, a hynny ar frys, er mwyn galluogi Awdurdodau Lleol a chyrff y GIG i ymateb a darparu cyfleusterau i gyfyngu ar ei ledaeniad, trin a phrofi nifer mawr iawn o gleifion a'r bobl yr effeithir yn uniongyrchol arnynt, gofalu amdanynt a rheoli eu hadferiad. Roedd hyn yn cynnwys darparu ysbytai maes, gorsafoedd profi a chyfleusterau storio cyrff.

4.2 Felly, ychwanegwyd Rhannau 3A (Adeiladau Dros Dro a Newid Defnydd at Ddibenion Argyfwng Iechyd y Cyhoedd) a 12A (Datblygiad Brys gan Awdurdodau Lleol) at Atodlen 2 i'r GDCG, gan roi caniatâd cynllunio am 12 mis i ddatblygu at ddibenion atal, rheoli neu liniaru effeithiau argyfwng iechyd y cyhoedd yn y Deyrnas Unedig neu gymryd camau eraill mewn perthynas ag argyfwng o'r fath.

4.3 Cyflwynwyd hawliau datblygu a ganiateir er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu cyfleusterau argyfwng ar unwaith er mwyn helpu i achub bywydau ac ymdrin â marwolaethau ychwanegol heb orfod mynd drwy'r broses gynllunio arferol.

4.4 Y bwriad oedd y byddai caniatâd cynllunio yn cael ei geisio drwy wneud cais i'r awdurdod cynllunio lleol petai angen cadw'r datblygiadau y tu hwnt i'r cyfnod 12 mis.

4.5 Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn ddifrifol iawn o hyd. Mae nifer yr achosion o'r feirws yn uchel ac mae straen mwy heintus o'r coronafeirws wedi dod i'r amlwg ers i'r darpariaethau gael eu gwneud yn wreiddiol. Hefyd, mae brechlynnau wedi cael eu datblygu a dechreuodd rhaglen frechu Cymru ym mis Rhagfyr 2020.

4.6 Mewn ymateb i hyn, mae Awdurdodau Lleol a chyrff y GIG wedi nodi bod angen cadw llawer o'r safleoedd y tu hwnt i'r cyfnod 12 mis er mwyn parhau i reoli'r pandemig, ond hefyd fel rhan o'r seilwaith gyfer darparu'r brechlyn.

4.7 Yng nghyd-destun pwysau eithafol ar Awdurdodau Lleol a chyrff y GIG, derbynnir na fyddai'n briodol tynnu adnoddau i ffwrdd o'r gwaith o reoli'r argyfwng i baratoi a chyflwyno ceisiadau cynllunio, a chau neu adleoli'r cyfleusterau presennol o bosibl, ar hyn o bryd.

4.8 Mae'r Gorchymyn yn ceisio caniatáu amser ychwanegol i baratoi a chyflwyno ceisiadau cynllunio (neu symud datblygiad ymaith os nad oes ei angen mwyach), gan olygu na fydd angen dargyfeirio adnoddau ar unwaith.

4.9 Mae'r estyniad chwe mis yn berthnasol i ddatblygiadau o dan Ran 3A a ddechreuodd cyn 10 Ebrill 2021 a datblygiadau o dan Ran 12A a ddechreuodd cyn 30 Mawrth 2021.

4.10 Ar gyfer datblygiad sy'n dechrau ar neu ar ôl 30 Mawrth 2021 (o dan Ran 12A) neu 10 Ebrill 2021 (o dan Ran 3A), mae'r cyfnod presennol o 12 mis yn parhau

## 5. Ymgynghori

5.1 Er mwyn sicrhau y bydd pob datblygiad yn parhau i fod yn gyfreithlon ac wedi'i reoleiddio, rhaid i'r Gorchymyn ddod i rym cyn i'r caniatâd ar gyfer y safleoedd cyntaf ddod i ben. Yn anffodus, nid oes digon o amser i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

5.2 Er ei bod yn destun gofid na chynhaliwyd ymgynghoriad â'r cyhoedd, o ystyried natur fyrdymor effeithiau cynllunio'r datblygiadau hyn ynghyd â'u hanghenraid fel rhan o'r ymateb i COVID-19 er mwyn diogelu iechyd pobl, ystyrir ei bod yn rhesymol bwrw ymlaen â'r Gorchymyn hwn a blaenoriaethu'r ymateb i'r pandemig.

5.3 Ceisir barn yr holl randdeiliaid yn ôl-weithredol ar Ran 3A a Rhan 12 yn gyffredinol fel rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol ynghylch newidiadau ehangach i'r GDCG. Caiff unrhyw adborth ei ddefnyddio i lywio unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

## Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2021

### 1. Yr opsiynau

1.1 Ystyrir yr opsiynau canlynol:

**Opsiwn 1: Gwneud dim** – Bydd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau sydd wedi bod yn eu lle am 12 mis yn dod i ben. Pan ddaw'r cyfnod 12 mis i ben, neu cyn hynny, rhaid rhoi'r gorau i unrhyw ddefnydd; rhaid symud unrhyw adeilad, strwythur symudol, gwaith, offer neu beiriannau ymaith; a rhaid adfer yr adeilad neu'r tir i'r cyflwr yr oedd ynddo cyn y datblygiad, neu i unrhyw gyflwr arall y cytunir arno yn ysgrifenedig rhwng yr awdurdod cynllunio lleol a'r datblygwr.

Fel arall, os bydd angen cadw'r datblygiad, rhaid cyflwyno cais cynllunio a rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ei gymeradwyo.

**Opsiwn 2: Gwneud y ddeddfwriaeth** – Caiff caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiadau a wnaed cyn 30 Mawrth 2021 (Rhan 12A) a 10 Ebrill 2021 (Rhan 3A) ei estyn am chwe mis. Mae hyn yn rhoi amser ychwanegol i gyflwyno ceisiadau cynllunio neu symud datblygiad ymaith os nad oes ei angen mwyach.

1.2 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir gan y bydd yn fodd i adnoddau Awdurdodau Lleol a'r GIG gael eu blaenoriaethu ar gyfer ymateb i'r pandemig a rhoi rhaglen frechu Cymru ar waith.

### 2. Dadansoddiad o Gostau a Manteision

2.1 Ymhlith y sectorau y mae'r cynigion fwyaf tebygol o effeithio arnynt mae:

- Cyrff y GIG ac Awdurdodau Lleol (y 22 o awdurdodau unedol yng Nghymru)
- Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLlau) – mae gan Gymru 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n penderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio. Yr awdurdodau unedol yw 22 o'r rhain, ac awdurdodau'r parciau cenedlaethol, sy'n cyflawni eu swyddogaeth cynllunio tref eu hunain, yw'r tri arall.
- Ymhlith y rhai yr effeithir arnynt gan argyfwng (fel y diffinnir yn y Gorchymyn) mae busnesau, sefydliadau a'r cyhoedd.

2.2 Cynhaliwyd y dadansoddiad o gostau a manteision canlynol ar gyfer pob un o'r sectorau uchod:

**Dadansoddiad o Gostau ar gyfer Opsiwn 1: Gwneud dim**

Awdurdodau Lleol a Chyrff y GIG

2.3 Bydd angen ceisiadau cynllunio er mwyn rheoleiddio datblygiadau o dan Ran 3A a Rhan 12 o'r GDCG y bydd Awdurdodau Lleol a chyrff y GIG am eu cadw y tu hwnt i 12 mis.

2.4 Bydd hyn yn golygu y caiff adnoddau eu dargyfeirio er mwyn paratoi, cyflwyno a rheoli'r broses o wneud cais cynllunio, neu drefnu i symud datblygiadau ymaith a/neu eu hadleoli.

2.5 Oherwydd cwmpas eang y gwaith datblygu a ganiateir, sy'n caniatáu datblygiad gan neu ar ran Awdurdod Lleol neu un o gyrff y GIG at ddibenion atal, rheoli neu liniaru effeithiau argyfwng iechyd y cyhoedd, neu gymryd camau eraill mewn perthynas ag argyfwng o'r fath, ni allwn fesur cyfanswm y datblygiadau a wneir o dan y darpariaethau hyn. Mae'r hawl wedi cael ei defnyddio i roi caniatâd ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddiau, gan gynnwys ysbytai, cyfleusterau iechyd, canolfannau profi, cyfleusterau crwner, corffdai, llety preswyl ychwanegol a chyfleusterau storio a dosbarthu, gan gynnwys ar gyfer canolfannau bwyd cymunedol. Felly, gallai'r gofyniad i gael caniatâd cynllunio ar gyfer cadw cyfleusterau o'r fath y tu hwnt i 12 mis effeithio ar nifer sylweddol o ddatblygiadau.

2.6 Mae gofynion ymgynghori â'r cyhoedd a gwaith gweinyddu achosion sylfaenol yn golygu y byddai disgwyl i'r broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio gymryd o leiaf bum wythnos. Y cyfnod penderfynu statudol yw wyth wythnos.

2.7 Mae'r ffi cynllunio ar gyfer cais cynllunio yn amrywio yn dibynnu ar y math o ddatblygiad. Bydd costau ychwanegol yn gysylltiedig â'r gwaith o baratoi'r wybodaeth ategol angenrheidiol, megis cynlluniau. Amcangyfrifodd astudiaeth feincnodi a gynhaliwyd yn Lloegr[1] fod cyfanswm cost cyflwyno cais newid defnydd yn amrywio o £290 i £3,368, gyda chost gyfartalog o £1,245 a chost ganolrifol o £1,035.

2.8 Cafodd nifer o newidynnau effaith ar y costau hyn, gan gynnwys defnyddio asiant, defnyddio cynlluniau sydd eisoes yn bodoli a gyflwynwyd fel rhan o gynlluniau blaenorol, a'r arbedion a wnaed drwy gyflwyno ceisiadau drwy'r Porth Cynllunio (roedd hyn yn cyfyngu ar gostau argraffu). Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod y costau a nodwyd yn yr astudiaeth hon yn cynrychioli a) y costau tebygol yng Nghymru a b) y costau tebygol am gais ar gyfer datblygiad ar y raddfa hon. Gall Awdurdod Lleol ddefnyddio gwasanaethau ‘mewnol’ i leihau rhai o'r costau paratoi.

2.9 Bydd penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio, a'r angen i gau a symud cyfleusterau ymaith a/neu eu hadleoli yn dilyn hynny, yn effeithio ar yr ymateb

[1] Meincnodi'r costau i geisyddion mewn perthynas â chyflwyno cais cynllunio. https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20090903233426/http://www.communities.gov.uk/documents/planningandbuilding/pdf/benchmarkingcostsapplication.pdf

i'r pandemig, a allai arwain at gostau anuniongyrchol anfesuradwy o bosibl wrth geisio rhoi mesurau amgen ar waith.

2.10 Hefyd, mae'n debygol yr eir i gostau anuniongyrchol o ganlyniad i ddefnyddio'r sector preifat i ddarparu gwasanaethau a llogi cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli yn ystod y broses o geisio'r caniatâd perthnasol. Oherwydd cwmpas y gwaith datblygu a ganiateir, ni ellir mesur y gost anuniongyrchol hon.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.11 Bydd ACLlau yn dilysu ceisiadau am ganiatâd cynllunio, yn eu prosesu ac yn penderfynu arnynt. Bydd angen rhoi cyhoeddusrwydd i bob cais a chynnal ymweliad â'r safle. Penderfynir ar y cais yn unol â chynllun dirprwyo'r ACLl perthnasol a all olygu mai'r pwyllgor cynllunio a fydd yn penderfynu ar y cais. Bwriedir i'r ffi cynllunio a delir wrthbwyso costau'r ACLl.

Y rhai yr effeithir arnynt gan argyfwng

2.12 Bydd y gofyniad uniongyrchol i gael caniatâd cynllunio ar gyfer rhai datblygiadau a grëwyd ar ddechrau'r pandemig yn effeithio ar yr ymateb i'r argyfwng, yn enwedig os gwneir penderfyniad i adleoli cyfleusterau megis gorsafoedd profi neu lety dros dro.

2.13 Gallai hyn arwain at gostau anuniongyrchol i'r rhai yr effeithir arnynt gan yr argyfwng, megis y cyhoedd, pobl ddigartref a busnesau. Mae'r costau hyn yn anfesuradwy oherwydd bydd difrifoldeb y costau yr eir iddynt yn dibynnu ar nifer o newidynnau megis y math o ddatblygiad, ei rôl bresennol yn yr ymateb i'r pandemig, ei leoliad ac ati, a manylion unrhyw ddarpariaethau amgen a ddarperir (os o gwbl).

**Dadansoddiad o Fanteision ar gyfer Opsiwn 1 – Gwneud dim**

Awdurdodau Lleol a Chyrff y GIG

2.14 Nid oes manteision uniongyrchol nac anuniongyrchol. Bydd y gofyniad i gyflwyno cais cynllunio ar unwaith a/neu adleoli cyfleusterau yn tarfu ar ymdrechion Awdurdodau Lleol a chyrff y GIG i reoli effeithiau'r pandemig.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.15 Bydd ACLlau yn cael ffioedd ceisiadau cynllunio mewn perthynas ag unrhyw geisiadau a gyflwynir. Mae ffioedd ceisiadau cynllunio yn amrywio, yn dibynnu ar fath a maint y datblygiad arfaethedig. Mae'r raddfa'n amrywio o £85 hyd at uchafswm o £300,000.

2.16 Oherwydd natur eang datblygiadau o dan Rannau 3A a 12, nid oes modd mesur yr incwm posibl y gellid ei gael drwy ffioedd. Serch hynny, bwriad y ffi yw gwrthbwyso costau prosesu'r cais i'r ACLl ac nid gwneud elw.

Y rhai yr effeithir arnynt gan argyfwng

2.17 Nid oes manteision uniongyrchol nac anuniongyrchol i'r rhai yr effeithir arnynt gan argyfwng.

2.18 Fodd bynnag, bydd modd i'r rhai â diddordeb yn y datblygiad gymryd rhan yn y broses o wneud cais cynllunio drwy gyflwyno sylwadau i'r ACLl drwy'r cyfnod cyhoeddusrwydd statudol. Bydd yr ACLl yn ystyried sylwadau a wneir yn ystod y broses hon fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau.

**Dadansoddiad o Gostau ar gyfer Opsiwn 2: Gwneud y ddeddfwriaeth**

Awdurdodau Lleol a Chyrff y GIG

2.19 Ni fydd gwneud y ddeddfwriaeth yn arwain at gostau ychwanegol.

2.20 Byddai costau'n cael eu harbed (y rhai a nodir ym mharagraffau 2.7-2.10) mewn achosion lle gall fod angen y datblygiad ar ôl 12 mis, ond dim mwy na 18 mis, a gellir ei symud ymaith yn hytrach na gwneud cais am ganiatâd cynllunio.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.21 Ni fydd costau ychwanegol i awdurdodau cynllunio lleol.

2.22 Os bydd angen cadw unrhyw ddatblygiadau y tu hwnt i'r cyfnod estynedig, caiff ceisiadau cynllunio eu cyflwyno. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y galw am ddatblygiadau a gaiff eu codi/eu creu gan ddefnyddio'r hawl datblygu a ganiateir, a/neu'r defnydd a wneir ohonynt, yn lleihau wrth i'r rhaglen frechu genedlaethol fynd rhagddi, gan arwain at eu symud ymaith. Felly, rhagwelir y bydd nifer y ceisiadau cynllunio yn llai o gymharu ag opsiwn 1 (gwneud dim). Fodd bynnag, bwriad ffioedd ceisiadau cynllunio yw gwrthbwyso costau ACLlau ac nid gwneud elw.

Y rhai yr effeithir arnynt gan argyfwng

2.23 Nid oes costau ychwanegol uniongyrchol nac anuniongyrchol.

2.24 Gall cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli a ddefnyddir fel rhan o'r ymateb i COVID-19 barhau am chwe mis ychwanegol.

**Dadansoddiad o Fanteision ar gyfer Opsiwn 2**

Awdurdodau Lleol a Chyrff y GIG

2.25 Byddai estyn y cyfnod a ganiateir chwe mis ar gyfer datblygiadau a gafodd eu codi/eu creu cyn 30 Mawrth 2021 (Rhan 12A) a 10 Ebrill 2021 (Rhan 3A) yn golygu na fyddai angen cyflwyno ceisiadau cynllunio ar unwaith (ac na fyddai angen adleoli adnoddau o ganlyniad i hynny). Bydd hyn yn golygu bod modd

parhau i flaenoriaethu adnoddau ar gyfer yr ymateb i'r pandemig a chynnal y rhaglen frechu genedlaethol.

2.26 Bydd y chwe mis ychwanegol yn rhoi amser i gyrff y GIG ac Awdurdodau Lleol gwblhau asesiadau i ddeall yr ystad sy'n ofynnol er mwyn parhau i ymateb i'r pandemig a chefnogi'r rhaglen frechu genedlaethol wrth iddi fynd rhagddi. Gellir cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer y datblygiadau dilynol y bwriedir eu cadw, a rhoi cynlluniau ar waith i symud ymaith y rhai nad oes eu hangen mwyach.

Awdurdodau Cynllunio Lleol

2.27 Er nad oes manteision uniongyrchol, yn gyffredinol, bydd lleihau nifer y ceisiadau cynllunio sydd yn y system gynllunio yn galluogi ACLlau i flaenoriaethu adnoddau staff gwerthfawr ar gyfer ceisiadau mwy cymhleth ac agweddau ar y system sy'n defnyddio llawer o adnoddau.

Y rhai yr effeithir arnynt gan argyfwng

2.28 Caiff cyfleusterau a ddefnyddir mewn ymateb i'r pandemig eu cadw, er budd pawb yr effeithir arnynt gan COVID-19.

2.29 Fodd bynnag, byddai hyn yn golygu cyfnod o chwe mis arall o beidio ag ymgynghori â'r cyhoedd na datrys yr effeithiau cynllunio posibl a achosir gan y mathau hyn o ddatblygiadau. Serch hynny, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cael gohebiaeth nac unrhyw adborth nodedig gan randdeiliaid i awgrymu bod problemau sylweddol wedi codi mewn perthynas ag unrhyw rai o'r safleoedd.

2.30 O ystyried natur fyrdymor yr effeithiau cynllunio a'r canlyniadau i iechyd pobl yn sgil COVID-19, y flaenoriaeth a roddir i'r ymateb i'r pandemig a'r rhaglen frechu yn genedlaethol, ystyrir bod hyn yn rhesymol.

Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

2.31 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir er mwyn cael gwared ar y baich a roddir ar gyrff y GIG ac Awdurdodau Lleol i gyflwyno ceisiadau cynllunio mewn cyfnod cymharol fyr.

## 3. Ymgynghori

3.1 Nid oes ymgynghoriad wedi’I gynnal ar yr asesiad effaith rheoleiddiol hwnd.

3.2 Er mwyn sicrhau y bydd pob datblygiad yn parhau i fod yn gyfreithlon ac wedi'i reoleiddio, rhaid i'r ddeddfwriaeth ddod i rym cyn i'r caniatâd ar gyfer y safleoedd cyntaf ddod i ben. Y dyddiad cynharaf yw 30 Mawrth 2021. Yn anffodus, nid oes digon o amser i gynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus tri mis arferol.

3.3 Er ei bod yn destun gofid na chynhaliwyd ymgynghoriad, o ystyried natur fyrdymor effeithiau cynllunio'r datblygiadau hyn ynghyd â'u hanghenraid fel rhan o'r ymateb i COVID-19 er mwyn diogelu iechyd pobl, ystyrir ei bod yn rhesymol bwrw ymlaen â'r Gorchymyn hwn a blaenoriaethu'r ymateb i'r pandemig.

3.4 Er gwaethaf yr uchod, ceisir barn yr holl randdeiliaid yn ôl-weithredol ar Ran 3A a Rhan 12 yn gyffredinol fel rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol ynghylch newidiadau ehangach i'r GDCG. Caiff unrhyw adborth ei ddefnyddio i lywio unrhyw newidiadau yn y dyfodol.

3.5 Hefyd, bydd pawb sy'n gyfrifol am y datblygiadau argyfwng yn cael gwybod nad oes disgwyl i unrhyw estyniadau pellach gael eu rhoi, ac y bydd yn rhaid iddynt baratoi i gyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer unrhyw gyfleuster y byddant am ei gadw y tu hwnt i 18 mis, neu drefnu i'w symud ymaith.

## 4. Asesu'r gystadleuaeth

4.1 Mae prawf hidl cystadleuaeth wedi'i gymhwyso at y diwygiadau arfaethedig. Mae canlyniadau'r prawf yn awgrymu nad yw'r cynigion yn debygol o gael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth.

## 5. Adolygu ar ôl gweithredu

5.1 Mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn cyfathrebu'n rheolaidd. Mae hyn yn fodd i drafod unrhyw faterion neu bryderon mewn perthynas â'r trefniadau a gyflwynir gan yr is-ddeddfwriaeth newydd. Bydd Aelodau'r Senedd a'r cyhoedd hefyd yn cyflwyno tystiolaeth o effeithiolrwydd y trefniadau newydd.

5.2 Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio cynnwys y mesurau a geir yn y Gorchymyn fel rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol ar newidiadau ehangach i hawliau datblygu a ganiateir. Bydd hyn yn rhoi cyfle pellach i roi adborth.